Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** IR882

**Dyddiad cyhoeddi:** 14 Awst 2023

# Contract Ffonau Symudol

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth ar 17 Gorffennaf 2022 pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am ffonau symudol.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod a nodi ein hymatebion cyfatebol.

**1. Darparw(y)r Rhwydwaith – Rhowch enw'r darparwr rhwydwaith i mi, os gwelwch yn dda e.e., EE, Telefonica, Vodafone, Three**

EE drwy Class, sy'n ailwerthwr awdurdodedig. Daethom yn gwsmer Class yn 2021-22 ond rydym bellach yn y broses o ddychwelyd i fod yn gwsmer EE uniongyrchol.

**2. Gwariant Cyfartalog Blynyddol ar gyfer pob Darparwr Rhwydwaith – Rhowch wybod imi am y gwariant blynyddol cyfartalog dros y tair blynedd ddiwethaf, os gwelwch yn dda. Os yw hwn yn gontract newydd, a wnewch chi ddarparu'r gwariant blynyddol amcangyfrifedig.**

EE, £13,406
Class £17,717

**3. Nifer y Cysylltiadau – Nifer y cysylltiadau ar gyfer pob darparwr rhwydwaith. (Nifer y dyfeisiau llais yn unig, dyfeisiau llais a data, dyfeisiau data yn unig) rhowch y dadansoddiad imi ac nid y cyfanswm cyffredinol.**

203 o gysylltiadau

**4. Hyd y contract – nodwch a yw'r contract hefyd yn cynnwys estyniadau contract ar gyfer pob darparwr, os gwelwch yn dda.**

24 mis, nid oes unrhyw ddewis i'w ymestyn.

**5. Dyddiad Dechrau'r Contract – rhowch ddyddiad dechrau'r cytundeb llofnodedig imi, os gwelwch yn dda. Peidiwch â rhoi dyddiad contract fframwaith imi. Mae angen dyddiadau contract y cytundeb llofnodedig arnaf. (Os oes mwy nag un dyddiad cychwyn, a fyddech cystal â rhoi'r dyddiad cynharaf imi ar gyfer pob darparwr)**

Rydym wedi cwblhau ymarfer caffael yn ddiweddar ac rydym yn gweithio drwy drefniadau pontio gyda'r cyflenwyr sy'n mynd allan ac yn dod i mewn. Disgwylir i'r contract newydd gydag EE ddechrau ym mis Awst 2023, ond nid yw wedi ei gwblhau na'i lofnodi eto.

**6. Dyddiad Diweddu'r Contract – rhowch ddyddiad diweddu'r cytundeb llofnodedig imi, os gwelwch yn dda. Peidiwch â rhoi dyddiad contract fframwaith imi. Mae angen dyddiadau contract y cytundeb llofnodedig arnaf. Os yw'r contract yn gontract treigl, nodwch hynny.**

Gweler yr atebion i (4) a (5)

**7. Dyddiad Adolygu Contractau – Rhowch y dyddiad imi pan mae'r sefydliad yn bwriadu adolygu'r contract hwn, os gwelwch yn dda.**

Nid oes unrhyw ddyddiad adolygu arfaethedig wedi ei gofnodi.

**8. Yr unigolyn yn y sefydliad sy'n gyfrifol am y contract penodol hwn. A wnewch chi anfon y manylion cyswllt llawn Enw Cyswllt, Teitl Swydd, Rhif Cyswllt a chyfeiriad e-bost uniongyrchol ataf ar gyfer pob darparwr rhwydwaith? Os nad oes modd darparu manylion cyswllt llawn, anfonwch deitl eu swydd wirioneddol ataf.**

Y Pennaeth TG sy'n gyfrifol.

**9. Os yw'r contract ffonau symudol yn cael ei ddarparu gan gontract a reolir, a fyddech cystal â rhoi enw gwirioneddol y darparwr rhwydwaith imi ynghyd â nifer y cysylltiadau a'r cyswllt mewnol yn y sefydliad sy'n gyfrifol am y contract hwn.**

Amherthnasol

**Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf imi – Os yw'r sefydliadau wedi'u rhoi allan i dendr ar hyn o bryd, nodwch hefyd ddyddiad bras y dyfarniad ynghyd â'r wybodaeth uchod.**

Amherthnasol

**Hefyd, os yw'r contract yn yr ymateb wedi diweddu/yn gontract treigl, rhowch ragor o wybodaeth i mi, os yw'r wybodaeth ar gael, am gynlluniau'r sefydliad o ran ffonau symudol a statws y contract?**

Amherthnasol

**Os dyfarnwyd y contract hwn yn ystod y tri mis diwethaf, a wnewch chi roi rhestr fer imi o'r cyflenwyr a wnaeth gais am y contract?**

Cynhaliwyd y broses gaffael drwy fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron "mobile voice and data services" (RM6261) lot 1 sydd â phedwar cyflenwr:

BT plc, Gamma Network Solutions Ltd, Virgin Media O2 Business, Vodafone Ltd
Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth